**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

(CLA(4)-12-11)

**CLA57**

**Adroddiad drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: The Crime and Disorder (Formulation and Implementation of Strategy) (Wales) (Amendment) Regulations 2011**

**Y weithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer symleiddio'r darpariaethau sy'n ymwneud â grwpiau strategaeth a pharatoi strategaethau yn The Crime and Disorder (Formulation and Implementation of Strategy) (Wales) (Amendment) Regulations 2007 o 5 Rhagfyr 2011.

**Craffu Technegol**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Mae'n ofynnol gwneud y Gorchymyn ar y cyd gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn ôl adran 6(9) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Felly caiff ei osod gerbron Senedd y DU, ac o'r herwydd, mae wedi'i baratoi yn Saesneg yn unig.

[Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg]

**Rhinweddau: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Tachwedd 2011**

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

**Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) (Diwygio) 2011**

Fel y nodir yn yr adroddiad, paratowyd y rheoliadau diwygio hyn yn uniaith Saesneg. Yr arfer yw paratoi offerynnau statudol yn uniaith

Saesneg lle bo’r offerynnau yn offerynnau ar y cyd a lle y bwriedir eu gosod yn y Senedd. Dyna paham y cafodd y Rheoliadau sydd i’w diwygio, hy y rhai a wnaed yn 2007, eu paratoi hefyd yn uniaith Saesneg.